**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Mai 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Mai 2012

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gan roi iddo'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys gofal cymdeithasol ar eu cyfer.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Angela Burns**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Suzy Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Lynne Neagle**
Llafur Cymru
Tor-faen



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



**Simon Thomas**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


**Crynodeb o'r Argymhellion** ..... 5

**Cyflwyniad** ..... 7

**Cefndir** ..... 8

**Ymchwiliad y Pwyllgor** ..... 9

**Dewis ehangach o gyrsiau** ..... 10

Mwy o ddewis ..... 10

Ardaloedd gwledig ac ysgolion bach yn ei chael yn anos ..... 11

Amharodrwydd i deithio ..... 11

Yr effaith ar niferoedd mewn dosbarthiadau ..... 12

Dyblygu rhai cyrsiau galwedigaethol ..... 12

Y dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ..... 13

Canlyniadau anfwriadol i ddarparu dewis ehangach ar gyfer rhai pynciau: Ieithoedd Tramor Modern ..... 14

Pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ..... 15

Cymraeg fel ail iaith ..... 15

**Ariannu'r ddarpariaeth 14-19** ..... 16

Ariannu addysg ôl-16 ..... 18

**Cydweithio** ..... 20

**Teithio a Thrafnidiaeth** ..... 23

**Dysgu digidol** ..... 25

**Cymwysterau galwedigaethol** ..... 28

Stereoteipio ar sail rhyw ..... 28

Dilyniant rhwng cyrsiau galwedigaethol ..... 29

Darparu cyrsiau galwedigaethol ..... 29

Adolygiad y Dirprwy Weinidog o Gymwysterau 14-19 ..... 30

Yr effaith ar ddysgwyr sy'n anelu at fynd i addysg uwch ..... 30

Yr effaith ar golegau addysg bellach ..... 31

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach ..... 33

**Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr** ........ **35**
Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ........ 35
Anogwyr Dysgu ........ 35
Cynllun Llwybrau Dysgu (neu ddogfen debyg) ........ 36
Amser i ddewis ........ 38
**Cyngor diduedd ynghylch gyrfaoedd** ........ **40**
Cyngor diduedd ynghylch gyrfaoedd ........ 40
Darparu cyngor ynghylch gyrfaoedd ........ 40
Darparu cyngor diduedd i rieni neu warcheidwaid ........ 41
**Dysgwyr bregus (gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol)** ........ **42**
**Sgiliau sy'n berthnasol i farchnadoedd llafur Cymru** ........ **44**
**Rôl darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith** ........ **48**
**Yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg** ........ **50**
**Cyfraddau aros-ymlaen a dysgwyr sydd wedi ymddieithrio** ........ **52**
**Penderfyniad pennaeth ysgol neu goleg i ddileu hawl dysgwr** ........ **54**
**Atodiad A - Tystion** ........ **55**
**Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **57**
**Atodiad C – Ymatebion i'r ymgynghoriad** ........ **59**
**Atodiad D – Ymatebion i holiaduron** ........ **60**

## Crynodeb o'r Argymhellion

Mae'r Pwyllgor yn argymell yr hyn a ganlyn:

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygu'r penderfyniad i bennu 30 cwrs (gan gynnwys pum cwrs galwedigaethol) yn isafswm y cyrsiau sydd eu hangen i lunio cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Fel rhan o'i adolygiad, dylai'r Gweinidog werthuso unrhyw ganlyniadau anfwriadol i gael dewis ehangach o gyrsiau; y cydbwysedd rhwng cyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol; a'r effaith ar ysgolion llai ac ysgolion gwledig.

(Tudalen 15)

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a choleg lunio prosbectws ar y cyd sy'n cynnwys cyngor diduedd ynghylch pob cwrs a chyfle hyfforddiant lleol i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed (gan gynnwys ysgolion, colegau a lleoedd ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar waith), i alluogi dysgwyr i gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ar gael i'w cynorthwyo gyda'u dewisiadau pan fyddant yn 14 ac yn 16 oed. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu i ba raddau y ceir mwy o deithio a defnydd o drafnidiaeth, sydd i'w weld o ganlyniad i weithredu'r Mesur, ac effaith hynny. Yn benodol, dylai'r Adolygiad ymchwilio i'r hyn a ganlyn, a'i werthuso:

- yr effaith y mae mwy o deithio wedi'i chael ar ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, yn benodol nifer y dysgwyr sy'n teithio i safleoedd eraill yn rheolaidd a phellter cyfartalog, ac uchafswm pellter, y siwrneiau hynny;
- effaith teithio a thrafnidiaeth ar ddysgwyr iau (rhwng 14 ac 16 oed);
- i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ceisio lleihau lefelau teithio dysgwyr;
- cost teithio a thrafnidiaeth i awdurdodau lleol, ysgolion, a dysgwyr unigol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- yr effaith ariannol ar y Consortia, wrth i'r grantiau 14-19 ddod i ben a'r effaith ar gynlluniau trafnidiaeth;
- faint o amser y mae dysgwyr ac athrawon/darlithwyr yn ei wario yn teithio, ac effaith mwy o deithio ar wersi eraill ac amser chwarae/amser cinio;

- nifer y dysgwyr sy'n amharod i deithio ac sydd, o ganlyniad, â llai o ddewis o ran cyrsiau;
- effeithiolrwydd dysgu digidol fel ffordd o leihau'r angen i deithio.

(Tudalen 24)

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar y cyd â'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sicrhau bod ysgolion yn cael eu hystyried yn sefydliadau sector cyhoeddus â blaenoriaeth, er mwyn iddynt gael budd o'r broses o gyflwyno prosiect band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid allweddol eraill, fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, gomisiynu adolygiad o wasanaethau cymorth i ddysgwyr a gofal bugeiliol, gan gynnwys gwerthuso cysondeb y modd y darperir anogwyr dysgu ac eglurhad ynghylch rôl y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth dysgu. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru werthuso ac, os oes angen, gyflymu'r broses o weithredu a defnyddio Cynlluniau Llwybrau Dysgu i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u rhoi ar waith mewn modd cyson ym mhob ysgol a gynhelir.

(Tudalen 39)

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru werthuso effaith Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr bregus mewn colegau addysg bellach. (Tudalen 43)

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru lunio rhestr o weithrediadau allweddol y gall eu rhoi ar waith yn gyflym i sicrhau bod cyflogwyr yn chwarae rhan fwy cyson ac effeithiol yn y gwaith o gynllunio a gweithredu darpariaeth 14-19. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd lunio rhestr o'r gweithrediadau allweddol a fydd yn sicrhau ei bod yn haws i'r rhwydweithiau 14-19 gael gafael ar wybodaeth gywir a chyfoes am y farchnad lafur. (Tudalen 47)

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith gweithredu'r Mesur ar addysg Gymraeg a dwyieithog, gan gynnwys ysgolion dwy ffrwd.

(Tudalen 50)

## Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ar y pryd, ym mis Gorffennaf 2008. Cafodd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ("y Mesur") Gymeradwyaeth Frenhinol ar 13 Mai 2009. Bu'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn strategaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru er 2003, ac mae'r Mesur yn rhoi sail statudol i'r polisi hwn.

2. Rhoddwyd y Mesur ar waith fesul cam, ar sail grwpiau oedran a daearyddiaeth (sef yn ôl ardaloedd awdurdod lleol). Dyma'r camau ar gyfer gweithredu'r Mesur yn ôl blynyddoedd academaidd:

| | |
|---|---|
| Medi 2009 | Blwyddyn 10 |
| Medi 2010 | Blynyddoedd 10, 11 |
| Medi 2011 | Blynyddoedd 10, 11, 12 |
| Medi 2012 | Blynyddoedd 10, 11, 12, 13 |

3. Mae gan y gwaith o weithredu'r Mesur a'r egwyddor o ddarparu ystod ehangach o gyrsiau drwy gydweithio gysylltiad agos ag Agenda Trawsnewid y Llywodraeth, sy'n mynd i'r afael â newid strwythurol yn y sector addysg.

4. Hon oedd y ddeddf Gymreig gyntaf a gafodd ei harchwilio gan Bwyllgor er mwyn asesu pa mor effeithiol y'i gweithredwyd hyd yma.

## Cefndir

5. Y nod sydd wrth wraidd y Mesur yw sicrhau bod gan bob dysgwr rhwng 14 a 19 oed fframwaith Llwybr Dysgu sydd â'r nod o'u helpu i gyflawni eu potensial. Profiadau dysgu dysgwyr unigol yw'r Llwybrau Dysgu, ac maent yn datblygu hawl ar gyfer pob dysgwr. Mae'r Llwybrau Dysgu yn cynnwys cydbwysedd o ddysgu ffurfiol, dewis ehangach, hyblygrwydd, a Chraidd Dysgu 14-19, ynghyd â chyfuniad o gymorth i ateb anghenion dysgwyr.

6. Er mwyn helpu i roi'r polisi ar waith ac i sicrhau bod ymagwedd strategol yn cael ei fabwysiadu, sefydlodd Llywodraeth Cymru Rwydweithiau 14-19 yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r Rhwydweithiau'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol, a rhoddwyd iddynt y gorchwyl o ddatblygu ymagwedd strategol i sicrhau bod yr holl elfennau allweddol ar gael i ddysgwyr ni waeth beth yw eu gallu.

## Ymchwiliad y Pwyllgor

7. Fel rhan o'r ymchwiliad, bu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn archwilio:

- yr effaith y mae gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi ei chael ar bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed;
- a yw gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi cael effaith ar nifer y bobl ifanc sy'n dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant ar ôl i addysg orfodol ddod i ben pan fyddant yn troi'n 16 oed;
- a oes gan bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed ddewis ehangach o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o ganlyniad i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009;
- pa broblemau ymarferol yr ymdriniwyd â hwy er mwyn gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

8. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig, ac wyth sesiwn tystiolaeth lafar. Ychwanegwyd at y dystiolaeth ysgrifenedig gan holiadur i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed, a oedd yn gofyn eu barn ynghylch yr effaith yr oedd y Mesur wedi'i chael arnynt hwy, os o gwbl.

9. Ceir rhestr o'r tystion a roddodd tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig i'r ymchwiliad yn atodiadau A, B C ac D.

# Dewis ehangach o gyrsiau

### Mwy o ddewis

10. Un o amcanion allweddol ymchwiliad y Pwyllgor oedd canfod a oedd gan bob dysgwr ddewis ehangach o gyrsiau o ganlyniad i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ("y Mesur"), ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol i hynny.

11. Mae cynnig dewis ehangach o gyrsiau yn egwyddor sy'n sylfaen i'r Mesur. Mae Gweinidogion Cymru yn pennu, drwy reoliadau, nifer isaf y cyrsiau y mae gofyn eu darparu i lunio cwricwlwm lleol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4.[1] Nodwyd yn Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 fod yn rhaid i bob cwricwlwm lleol, erbyn 2012, gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau sy'n gyfystyr ag isafswm o 780 o bwyntiau. Rhaid i hyn gynnwys o leiaf bum cwrs astudio galwedigaethol sy'n gyfystyr ag isafswm o 260 o bwyntiau.

12. Cytunodd bron pob un o'r tystion fod gweithredu'r Mesur wedi arwain at gynnydd yn nifer y cyrsiau i ddysgwyr yn gyffredinol ac, yn benodol, at ddewis ehangach o gyrsiau galwedigaethol.

13. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dystiolaeth anghyson ynghylch a yw pob disgybl yn gallu manteisio ar y dewis ehangach o gyrsiau mewn gwirionedd. Cyfeiriodd rhai tystion at nifer o rwystrau ymarferol sy'n cyfyngu ar ddewisiadau rhai dysgwyr. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, rhybuddiodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL): "there is an illusion of increased choice, as the reality is one of restricted options."[2] Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru (ATL Cymru/Cymdeithas y Rheolwyr Mewn Addysg (AMiE)):

> "Young people do undoubtedly have a wider choice of academic and vocational courses as a result of the Measure, but the absolute value of such a wider choice is disputed within the profession."[3]

14. Dywedodd rhai tystion wrth y Pwyllgor, gan gynnwys Rebecca Williams o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), y gellid lleihau nifer y cyrsiau gorfodol heb effeithio'n ormodol ar y dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc:

---

[1] Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4

[2] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL), CYP(4) LS04

[3] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru (ATL Cymru) ac AMiE, CYP(4) LS06

> "Ar hyn o bryd, mae'r ffigur o 30 o gyrsiau, gyda phump galwedigaethol, wedi'i gynnwys yn rheoliadau'r Mesur. Felly, byddai'n fater cymharol syml i newid y rheoliadau heb newid y Mesur ei hun. Bydd angen bod yn ofalus o ran diogelu isafswm o gyrsiau galwedigaethol, am mai dyna un o brif rinweddau'r Mesur, ac un o'r meysydd y mae wedi llwyddo orau ynddynt. Nid oedd rheswm penodol, hyd y gwelaf i, dros bennu'r ffigur 30 yn y lle cyntaf. Ni fyddai lleihau y ffigur i un yr un mor fympwyol o 25 o reidrwydd yn lleihau cymaint â hynny ar yr ehangder dewis a fyddai ar gael i ddisgyblion. Byddai cael dewis o 25 o bynciau dal yn ddewis go eang."[4]

15. Aeth UCAC ymlaen i ddweud bod yn rhaid i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg fod yn fwy creadigol er mwyn cwrdd â'r gofyniad am 30 o gyrsiau, yn rhannol oherwydd y pellteroedd hwy rhwng partneriaid posibl. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg ddefnyddio darparwyr preifat yn amlach nag yn achos darpariaeth cyfrwng Saesneg, ac mae hyn yn creu nifer o heriau, ar ffurf trefniadau contractio newydd a materion rheoli ansawdd, er enghraifft. Dywedodd tystion eraill fod pennu dewis o 30 o gyrsiau yn rhesymol.

16. Roedd y rhesymau pam y gallai'r dewis o gyrsiau sydd gan ddysgwyr unigol fod yn gyfyngedig mewn gwirionedd yn cynnwys:

**Ardaloedd gwledig ac ysgolion bach yn ei chael yn anos**

17. Awgrymodd ASCL ei bod yn anos i ysgolion llai ateb gofynion y Mesur o'u cymharu ag ysgolion mwy, yn enwedig o ran darparu 30 o gyrsiau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y sefyllfa ymarferol o ran amserlennu ar y cyd ac ymdrin â materion yn ymwneud â theithio a thrafnidiaeth yn golygu nad yw rhai plant yn gallu cael mynediad at y dewisiadau hynny, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mai camargraff oedd bod y dewis hwnnw ar gael yn achos rhai plant.[5]

**Amharodrwydd i deithio**

18. Dywedodd ASCL wrth y Pwyllgor hefyd nad oedd rhai dysgwyr, yn enwedig dysgwyr iau na 16 oed, yn hyderus ynghylch teithio ac astudio mewn sefydliadau eraill, ac y gallai hyn gyfyngu ar eu dewis unigol hwy o gyrsiau.

19. Dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau (''y Gweinidog''), wedi hynny fod y dystiolaeth yn anghyson ynghylch a oedd amharodrwydd rhai dysgwyr i deithio yn cael effaith anffafriol ar eu dewis o gyrsiau: "there is some evidence in that regard but some evidence to the contrary."[6] Dywedodd y

---

[4] Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[5] Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[6] Cofnod y Trafodion [paragraff 9], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Gweinidog hefyd ei fod am sicrhau bod y nifer lleiaf bosibl o bobl ifanc yn gorfod teithio, ond cydnabu hefyd na fyddai'n realistig i bob sefydliad gynnig yr un nifer ac ystod o gyrsiau.

**Yr effaith ar niferoedd mewn dosbarthiadau**

20. Dywedodd Ann Keane, y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, wrth y Pwyllgor fod gan Estyn dystiolaeth fod niferoedd anghynaliadwy mewn dosbarthiadau ar gyfer rhai pynciau mewn rhai ardaloedd. Dywedodd fod Estyn, wrth arolygu ysgolion eleni, wedi canfod lleiafrif sylweddol o ddosbarthiadau chweched dosbarth nad oeddent yn hyfyw.

21. Rhoddodd Joyce M'Caw o Gyrfa Cymru grynodeb o'r mater:

> "It is difficult, is it not? When you offer wider choice, particularly post-16, there is still the same number of learners, but there are more choices, so inevitably, there will be fewer students on courses, and some courses may find that there are insufficient learners opting for them to make them viable."[7]

22. Dywedodd Rex Phillips o Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT):

> "I have one point on the number of courses. Although 30 courses will be on offer, I do not know whether any work has been done to look at whether all of those 30 courses are taken up or whether they have been able to be run. The funding is a factor in that anyway, because of the viability issue. Even though children may have opted for a course, they may not be able to take up that option because there are not enough other pupils willing to do so."[8]

**Dyblygu rhai cyrsiau galwedigaethol**

23. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd ColegauCymru fod gweithredu'r Mesur, o'i gyfuno â chyllid 14-19 wedi'i dargedu, wedi ysgogi cydweithio agosach rhwng ysgolion a cholegau, a bod hyn wedi bod o fudd i nifer o bobl ifanc.

24. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod rhai canlyniadau anfwriadol wedi codi mewn rhai ardaloedd:

> "In some cases schools have developed their own vocational provision, without recourse to college facilities or specialist tutors. It has also

---

[7] Cofnod y Trafodion [paragraff 196], 1 Rhagfyr 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[8] Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

resulted in some duplication of pre-existing college provision. The number of pupils attending colleges on school link partnerships is declining in some areas.

"Funding pressures may encourage schools to limit vocational choice in the higher cost areas whilst at the same time school based vocational provision in lower cost subjects is being expanded. Typical examples include reduced engineering and construction provision with corresponding increases in public services, IT, sport, and travel and tourism."[9]

**Y dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**

25. Dywedodd nifer o dystion wrth y Pwyllgor, er bod nifer y cyrsiau i ddysgwyr a oedd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu, nid oedd wedi cynyddu i'r un graddau â darpariaeth cyfrwng Saesneg.

26. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod pob ysgol a gynhelir a choleg addysg bellach wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Mesur ar gyfer mis Medi 2011, yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar lefel ôl-16. Fodd bynnag, nododd hefyd ei fod, yn ystod y Trydydd Cynulliad, wedi ystyried faint o newid sydd ei angen o ddifrif yn y system ac ai cynnig dewis oedd yr ateb mewn gwirionedd. Dywedodd ei fod wastad wedi canolbwyntio mwy ar ansawdd.

"At the end of the day, it is important that there is an effective, good and meaningful choice available to pupils and students, but I do not think that we can pretend that there is an absolute choice of the entire marketplace of subjects."[10]

27. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system o fandio ysgolion uwchradd yn ddiweddar. Gofynnwyd i Rebecca Williams am oblygiadau'r system newydd, a dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn ofalus, wrth ddod â blaenoriaethau newydd, nad yw'n dadwneud y gwaith da y mae eisoes wedi ei wneud mewn meysydd eraill, ac nad yw'n creu cymhellion sy'n tynnu'n groes i bolisïau eraill."[11]

---

[9] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan ColegauCymru, CYP(4) LS16
[10] Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[11] Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Canlyniadau anfwriadol i ddarparu dewis ehangach ar gyfer rhai pynciau: Ieithoedd Tramor Modern**

28. Dywedodd nifer o dystion wrth y Pwyllgor eu bod yn pryderu am ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â rhai pynciau traddodiadol yn sgîl cynnig dewis ehangach i ddysgwyr. Dywedodd Nigel Stacey, pennaeth Ysgol Dŵr-y-Felin yng Nghastell-nedd, a oedd hefyd yn cynrychioli ASCL:

> "I am also concerned that, because of the constraints that we have associated with block timetabling and so on pre-16, some of our more traditional subjects are in decline. For example, the numbers opting for modern foreign languages and so on are in decline."[12]

29. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth anghyson yn hyn o beth. Er enghraifft, dywedodd Cydgysylltydd Rhwydweithiau 14-19 Gogledd Cymru fod pynciau academaidd traddodiadol yn gadarn yn ei ardal ef.[13] Roedd Cydgysylltydd Rhwydweithiau 14-19 De-ddwyrain Cymru yn anghytuno, a dywedodd wrth y Pwyllgor fod cerddoriaeth, daeareg, ieithoedd modern, a Chymraeg fel ail iaith ar ôl 16 oed i gyd yn bynciau bregus yn y de-ddwyrain o ganlyniad i'r Mesur.

30. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd y gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern wedi'i achosi gan y gwaith o weithredu'r Mesur. Ychwanegodd y Gweinidog (a) fod gostyngiad hefyd i'w weld yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, a (b) bod y gostyngiad yn digwydd cyn i'r Mesur gael ei weithredu.

31. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mai un canlyniad annisgwyl posibl i amserlennu bloc a chwricwla lleol yw y gallant atal dysgwyr rhag dewis ieithoedd tramor modern, er enghraifft os yw'r pynciau hyn yn yr un golofn ar ffurflenni dewisiadau â phynciau mwy poblogaidd.

32. Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif: Ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a Llwybrau Dysgu 14-19, a oedd yn cynnwys pum gweithgaredd allweddol, gan gynnwys gweithio gyda'r Rhwydweithiau 14-19, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Gyrfa Cymru a ColegauCymru i annog rhagor o fyfyrwyr i gynnwys ieithoedd tramor modern yn un elfen o'u dysgu.

33. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Adolygiad o Gymwysterau yr oedd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, yn ymgymryd ag ef yn ystyried i ba raddau y

[12] Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[13] Cofnod y Trafodion [paragraff 29], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

byddai astudio iaith dramor fodern yn cael ei wneud yn orfodol. Mae disgwyl i'r adolygiad gyflwyno ei adroddiad terfynol erbyn mis Tachwedd 2012.[14]

**Pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)**

34. Nid oedd y Gweinidog yn pryderu am y niferoedd sy'n dewis cyrsiau STEM, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4, pan fo mathemateg a gwyddoniaeth yn bynciau gorfodol. Dywedodd hefyd fod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm ôl-16 gynnwys o leiaf un cwrs ym maes y pynciau STEM, er mwyn iddynt fod ar gael mewn addysg ôl-16.

**Cymraeg fel ail iaith**

35. Mae Cymraeg yn bwnc gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4. Cytunodd y Gweinidog y gwelwyd gostyngiad bach iawn yn nifer y disgyblion a oedd yn gwneud TGAU mewn Cymraeg yn 2010-11, ond dywedodd nad oedd dim tystiolaeth fod hynny wedi'i achosi gan y Mesur. Cyhoeddodd y Gweinidog Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010, ond dywedodd ei bod yn rhy fuan i wneud unrhyw newidiadau sylfaenol iddi.

**Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygu'r penderfyniad i bennu 30 cwrs (gan gynnwys pum cwrs galwedigaethol) yn isafswm y cyrsiau sydd eu hangen i lunio cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.**

**Fel rhan o'i adolygiad, dylai'r Gweinidog werthuso unrhyw ganlyniadau anfwriadol i gael dewis ehangach o gyrsiau; y cydbwysedd rhwng cyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol; a'r effaith ar ysgolion llai ac ysgolion gwledig.**

[14] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, Cyhoeddi Aelodau Bwrdd Prosiect Adolygu Cymwysterau, 6 Rhagfyr 2011

# Ariannu'r ddarpariaeth 14-19

36. Yn ystod hynt y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn y Trydydd Cynulliad, mynegodd y Pwyllgor Cyllid ar y pryd bryderon difrifol am yr amcangyfrifon cychwynnol o'r gost o ariannu'r gwaith o weithredu'r Mesur yn ei Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru), ym Mis Tachwedd 2008, gan gynnwys yr hyn a ganlyn yn enwedig:

> "Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi bod y gwariant presennol a'r arbedion disgwyliedig wedi cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio amcangyfrifon a rhagdybiaethau. I raddau helaeth, nid yw'r Llywodraeth wedi gallu dilysu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth wneud y rhagdybiaethau hyn. Os caiff y Mesur ei basio, mae'r pwyllgor felly yn argymell bod y Dirprwy Weinidog yn adolygu'r broses o roi'r Mesur ar waith yn ofalus, a hynny er mwyn sicrhau nad oes bwlch yn ymddangos mewn cyllid o ganlyniad i arbedion llai na'r disgwyl a'r ffaith bod mwy o bobl ifanc na'r disgwyl yn cymryd rhan yn y cynllun."[15]

37. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu'n benodol am gostau teithio a thrafnidiaeth:

> "Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pwysleisio drachefn ei bod yn hanfodol asesu goblygiadau ariannol unrhyw ddeddfwriaeth yn drylwyr, a hynny o'r cychwyn cyntaf. Mae'r pwyllgor yn awyddus i gael sicrhad bod yr amcangyfrifon o'r costau teithio yn gadarn."[16]

38. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion fod grantiau 14-19 wedi'u defnyddio i ariannu ystod eang o weithrediadau allweddol a fu'n bwysig wrth weithredu'r Mesur, er enghraifft: sicrhau lleoliadau canolog ar gyfer cyrsiau y mae nifer fach o ddisgyblion yn eu dilyn; yn achos cyrsiau lefel 1 a chyrsiau cyn-fynediad; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

39. Dywedodd John Fabes, Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Caerdydd, wrth y Pwyllgor:

> "The funding issue is critical to the implementation of the Measure. As John (Gambles) said earlier, for the pre-16 vocational courses in particular,

[15] FIN(3)-08-R13, Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru), Tachwedd 2008
[16] Ibid

without additionality they will collapse like a pack of cards; there are no two ways about it."[17]

40. Dywedodd Nigel Stacey wrth y Pwyllgor:

> "The message from our members, when we met a few weeks ago, was that the funding of the Measure is absolutely critical. Without the funding being attached, certainly in rural areas, there will be great difficulties with transport costs. It will probably mean that it will not be able to be delivered in those areas."[18]

41. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) ac Estyn fod cynnal cyrsiau galwediaethol yn tueddu i fod yn ddrutach na chynnal cyrsiau academaidd.

42. Dywedodd Estyn:

> "Yr ydym yn poeni tipyn bach p'un ai yw'r trefniadau cydweithio presennol yn gynaliadwy i'r dyfodol wrth i'r grant leihau dros y blynyddoedd i ddod. Mae rhai cyrsiau galwedigaethol yn ddrud, ac yn sicr yn ddrutach na'r cyrsiau yn y pynciau academaidd traddodiadol."[19]

43. Dywedodd Cydgysylltwyr y Rhwydweithiau 14-19:

> "We need to move towards sustainability, but if we add transport costs to the costs of the provision of vocational courses, then that can be inhibiting or even prohibitive."[20]

44. Dywedodd John Gambles:

> "One of the early threats or risks associated with the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 was that it would undermine level 1 and entry-level provision. However, we have made sure in all of the networks across Wales, not just in north Wales, that we have been able to use 14-19 learning pathways funding to make sure that those choices were there for those who could not cope with a level 2 and a level 3 offer."[21]

---

[17] Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[18] Cofnod y Trafodion [paragraff 180], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[19] Cofnod y Trafodion [paragraff 120], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[20] Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[21] Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

45. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer dysgu 14-19, nododd y Gweinidog:

> "Mae gostyngiad o £4.2 miliwn yn y gyllideb. Bydd modd gwneud arbedion gwerth £3.368 miliwn yn y gyllideb Dysgu 14-19 yn 2012-13 drwy ddarparu llwybrau dysgu 14-19 ar sail ranbarthol. Bydd [y gostyngiad hwn] yn codi i £4.611 miliwn yn 2013-14."[22]

46. Cytunodd y Gweinidog fod y grantiau 14-19 wedi chwarae rôl bwysig wrth ariannu datblygiadau allweddol fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Mesur. Fodd bynnag, dywedodd hefyd mai'r bwriad o'r cychwyn oedd i'r grantiau hyn roi arian sefydlu, ac y byddent yn cael eu dileu'n raddol. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae'r arian grant y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod o gymorth gyda hyn ac, er mwyn cynnig sefydlogrwydd, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cadarnhau parhad yr arian grant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2013-14."[23]

47. Cydnabu'r Gweinidog fod trafnidiaeth yn fater sy'n codi mewn rhai ardaloedd; fodd bynnag, dywedodd:

> "We would need to see a great deal more evidence of that from local authorities before I would be willing to make any further commitment in this area. "[24]

48. Yn dilyn y cyfarfod, rhoddodd y Gweinidog wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor a oedd yn cynnwys enghreifftiau, a ddarparwyd gan y Rhwydweithiau Dysgu 14-19, o achosion o gydweithio a arweiniodd at arbedion ariannol i ysgolion. Fodd bynnag, yn ei lythyr eglurhaol, nododd y Gweinidog nad oedd creu arbedion yn un o brif amcanion y Mesur.[25]

### Ariannu addysg ôl-16

49. Mae systemau blaenorol ar gyfer ariannu addysg ôl-16, gan gynnwys y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol, wedi annog cystadleuaeth rhwng darparwyr, yn hytrach na chydweithio. Dywedodd John Gambles:

---

[22] Papur CYP(4)-06-11 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 19 Hydref 2011
[23] Papur CYP(4)-03-12 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 26 Ionawr 2012
[24] Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[25] Papur CYP(4)-06-12 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 22 Chwefror 2012

> "Currently, we have funding mechanisms that do not support partnership working. Matt (Morden) talked about the national planning and funding system, the suspension of which has militated against partnership working. There is no incentive for schools and colleges to increase the volume of learning or to increase the number of courses on offer"[26]

50. Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd y Gweinidog newidiadau mawr i'r modd yr ariennir addysg ôl-16.[27] Cyhoeddodd y byddai'r sector yn cael dyraniadau tair blynedd i helpu i sicrhau sefydlogrwydd; y byddai'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn cael ei rhoi o'r neilltu ar gyfer y cyfnod hwn; ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r modd y caiff addysg ôl-16 ei chynllunio a'i hariannu.

51. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adolygiad presennol Llywodraeth Cymru o'r broses o gynllunio ac ariannu addysg ôl-16 yn sefydlu system ariannu sy'n cefnogi gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, yn hytrach na system sy'n seiliedig ar gystadlu am ddysgwyr.

---

[26] Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[27] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, Gweinidog yn cyhoeddi newidiadau i gyllid ôl-16, 4 Chwefror 2011

## Cydweithio

52. Dywedodd y Rhwydweithiau 14-19 wrth y Pwyllgor y bu cydweithio'n digwydd er 2005 o ganlyniad i'r polisi Llwybrau Dysgu, ond bod y Mesur wedi rhoi hwb i'r broses o gydweithio ac i gwricwla lleol.

53. Dywedodd John Fabes:

> "The strides that have been made in partnership, through collaborative working, as a result of this over the last five years have been significant. They have paved the way for schools to work together in ways that they had not conceived of, in many cases, in their history."[28]

54. Dywedodd Estyn fod gan rai ardaloedd hanes gwell o gydweithio nag ardaloedd eraill.

55. Dywedodd Cydgysylltwyr y Rhwydweithiau 14-19 wrth y Pwyllgor fod amserlennu ar y cyd a materion yn ymwneud â theithio a thrafnidiaeth yn arwain at gael blociau hwy o amser ar gyfer gwersi. Dywedodd Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor y gallai hyn gael effaith anffafriol ar amserlen Cyfnod Allweddol 3. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd fod cyfnodau hwy yn well yn achos rhai pynciau, er enghraifft cyrsiau galwedigaethol, ond nad oeddent mor dda ar gyfer cyrsiau eraill, gan gynnwys ieithoedd tramor modern, er enghraifft.

56. Wrth gael ei holi gan y Pwyllgor, cadarnhaodd Ann Keane y gallai blociau hir o amser yn yr amserlenni olygu bod rhai dysgwyr yn methu gwersi pynciau craidd:

> "That is where they have been taken out of school for, say, a half day, but the rest of the timetable is going on as normal. So, where the rest of the cohort who have not chosen an option that takes them out of the school would get English, mathematics or a Welsh lesson on that day, they have missed lessons."[29]

57. Ychwanegodd fod yr athrawon pwnc fel arfer yn rhoi cymorth ychwanegol i'r dysgwyr i'w helpu i wneud y gwaith y mae angen ei wneud.

58. Rhoddodd Cydgysylltwyr y Rhwydweithiau 14-19 ragor o fanylion i'r Pwyllgor ynghylch rôl y Rhwydweithiau 14-19, sy'n newid o ganlyniad i'r newid i ddechrau gweithio ar sail ranbarthol. Buont yn siarad hefyd am y cydweithio a'r

[28] Cofnod y Trafodion [paragraff 5], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[29] Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

rhwydweithio sydd eu hangen i lunio'r Cynlluniau Datblygu Rhanbarthol newydd (a fydd yn disodli'r Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol). Fodd bynnag, nid oedd y Rhwydweithiau 14-19 yn rhagweld y byddai unrhyw broblemau mawr o ganlyniad i ddechrau gweithio ar sail ranbarthol. Rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion rai enghreifftiau ymarferol i'r Pwyllgor i ddangos sut y mae'n gweithio'n effeithiol gydag awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Powys.

59. Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion am dystiolaeth ynghylch a oedd ysgolion a cholegau yn cydweithio'n effeithiol, yn enwedig gan fod modelau blaenorol ar gyfer ariannu addysg ôl-16 wedi annog cystadleuaeth, yn hytrach na chydweithio, rhwng sefydliadau. Ymddengys fod y dystiolaeth anecdotaidd yn eithaf anghyson. Dywedodd rhai tystion fod cydweithio rhwng ysgolion a cholegau'n gweithio'n dda yn eu hardaloedd hwy, ond roedd eraill yn llai hyderus yn hynny o beth.

60. Dywedodd Ann Keane ei bod yn bwysig fod ysgolion a cholegau'n cynllunio'r broses o symud o gyrsiau galwedigaethol lefel 1 i lefel 2 ar y cyd, a bod cynnydd da wedi'i wneud yn ddiweddar ar y broses hon.

61. Dywedodd John Fabes:

> "With the collaborative models, you are able to get that mix across your local partnership of schools and you can move freely between schools to get that combination, but that takes time and a degree of marketing. In other words, the schools need to promote themselves as a single joint offer in the eyes of the students, not as individual sites."[30]

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a choleg lunio <u>prosbectws ar y cyd</u> sy'n cynnwys cyngor diduedd ynghylch pob cwrs a chyfle hyfforddiant lleol i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed (gan gynnwys ysgolion, colegau a lleoedd ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar waith), i alluogi dysgwyr i gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ar gael i'w cynorthwyo gyda'u dewisiadau pan fyddant yn 14 ac yn 16 oed.**

62. Rhaid i brosbectysau ar y cyd fod yn fanwl ac yn ystyrlon, a rhaid iddynt ddatgan yn glir ble y bydd cyrsiau'n cael eu cynnal. Dylai rôl yr awdurdod lleol a'r Rhwydweithiau 14-19 yn y gwaith o gyhoeddi prosbectysau ar y cyd gael ei chryfhau. Dylid dilyn yr egwyddor bod rhieni neu warcheidwaid yn gallu cael gafael yn hawdd ar gyngor cyfredol a diduedd ynghylch pob cyfle dysgu yn yr ardal cwricwlwm lleol, a dylid dilyn yr egwyddor hon mewn nosweithiau rhieni hefyd.

---

[30] Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

63. Dylai pob disgybl a rhiant neu warcheidwad gael cyngor llawn, clir a diduedd, ar bob cam, ynghylch y cyfleoedd dysgu a’r dewis o gyrsiau sydd ar gael yn yr ardal cwricwlwm lleol, a dylent allu gael mynediad at gyngor o’r fath.

## Teithio a Thrafnidiaeth

64. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion yn nodi mai ymdrin â materion yn ymwneud â theithio a thrafnidiaeth oedd yn fwyaf hanfodol wrth weithredu'r Mesur. Roedd problemau'n ymwneud â chost trafnidiaeth; yr agweddau ymarferol ar drefnu tacsis, minibysiau a bysiau; a'r amser y mae dysgwyr a staff dysgu yn ei wario'n teithio, a'r goblygiadau i hynny o safbwynt yr amserlen.

65. Dywedodd CLlLC: "Increasingly members of staff are travelling rather than pupils."[31] Dywedodd UCAC ei fod yn gweld problemau o ran peidio â rhoi digon o amser i staff deithio rhwng sefydliadau addysg, a bod gofyn weithiau i staff deithio yn ystod eu hawr ginio.

66. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod angen buddsoddi mwy yn y broses o gynnal y seilwaith ffyrdd mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd trefol.

67. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd John Gambles:

> "Funding of such transport has largely been through 14-19 Networks and their grant funding. The annual cost for one such Network for one post-16 local area curriculum is £85,000 or £230 per student per year, with the UA absorbing the management costs."[32]

68. Ysgrifennodd Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Rhanbarth y De-orllewin a'r Canolbarth:

> "Transporting learners to their chosen provision is costly, time-consuming, logistically challenging and can be unpopular with young people in both rural and urban settings."[33]

69. Dywedodd UCAC fod teithio a thrafnidiaeth yn broblem benodol i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg oherwydd y pellter rhwng partneriaid posibl, ac y byddai unrhyw doriadau i'r grantiau teithio'n cael effaith sylweddol.

70. Mewn llythyr at y Pwyllgor ynghylch y gyllideb ddrafft (ar 15 Tachwedd 2011),[34] dywedodd y Gweinidog (a) na ddylid ond teithio os nad oes dewis arall; ac

---

[31] Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[32] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gydgysylltwyr Rhwydweithiau 14-19 Cymru, CYP(4) LS03
[33] Ibid

y dylid ystyried trefniadau eraill, gan gynnwys dysgu digidol, er enghraifft, neu fod athrawon neu ddarlithwyr yn teithio yn hytrach na'r disgyblion; a (b) y dylid teithio ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol/coleg yn unig.

71. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu am y ffaith bod myfyrwyr rhwng 14 ac 16 oed yn teithio am gyfnodau hir i fynd i gyfres hir o wersi mewn ysgolion neu golegau sy'n bartneriaid. Nid yw rhai disgyblion yn hoff o deithio, a gall materion godi o ran myfyrwyr iau ynghylch goruchwyliaeth gan staff ar siwrneiau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod disgyblion iau yn gorfod cario bagiau ysgol trwm pan fyddant ar siwrneiau hir.

72. Hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith y mae mwy o deithio wedi'i chael o ran byrhau egwyliau'r bore ac amser cinio.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu i ba raddau y ceir mwy o deithio a defnydd o drafnidiaeth, sydd i'w weld o ganlyniad i weithredu'r Mesur, ac effaith hynny. Yn benodol, dylai'r Adolygiad ymchwilio i'r hyn a ganlyn, a'i werthuso:**

- **yr effaith y mae mwy o deithio wedi'i chael ar ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, yn benodol nifer y dysgwyr sy'n teithio i safleoedd eraill yn rheolaidd a phellter cyfartalog, ac uchafswm pellter, y siwrneiau hynny;**
- **effaith teithio a thrafnidiaeth ar ddysgwyr iau (rhwng 14 ac 16 oed);**
- **i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ceisio lleihau lefelau teithio dysgwyr;**
- **cost teithio a thrafnidiaeth i awdurdodau lleol, ysgolion, a dysgwyr unigol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;**
- **yr effaith ariannol ar y Consortia, wrth i'r grantiau 14-19 ddod i ben a'r effaith ar gynlluniau trafnidiaeth;**
- **faint o amser y mae dysgwyr ac athrawon/darlithwyr yn ei wario yn teithio, ac effaith mwy o deithio ar wersi eraill ac amser chwarae/amser cinio;**
- **nifer y dysgwyr sy'n amharod i deithio ac sydd, o ganlyniad, â llai o ddewis o ran cyrsiau;**
- **effeithiolrwydd dysgu digidol fel ffordd o leihau'r angen i deithio.**

---

[34] Papur CYP(4)-11-11 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 1 Rhagfyr 2011

## Dysgu digidol

73. Mae dysgu digidol yn nodwedd allweddol ar y gwaith o weithredu'r Mesur. Mae nifer o bobl ifanc yn gyfarwydd iawn â defnyddio ystod eang o fathau o dechnoleg, ac mae dysgwyr yn gallu dysgu eu hunain, a dysgu gan ddysgwyr eraill.

74. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod dysgu digidol yn cwmpasu amrywiaeth gynyddol eang o gynnyrch TG, gan gynnwys Rhith-amgylcheddau Dysgu (VLE), fel Moodle,[35] Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru, fideogynadledda, fideos YouTube, deunydd ar-lein, ac yn y blaen.

75. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion fod dysgu digidol yn fwy effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio i ategu mathau eraill o ddysgu—hynny yw, dysgu cyfunol—yn hytrach na'i fod yn cymryd lle cyswllt yr unigolyn â'r athro yn yr ystafell ddosbarth.

76. Cytunodd y Gweinidog, gan ddweud:

> "Let us be clear: digital technology is not expected to replace classroom teaching; it has to sit alongside it."[36]

77. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod dysgu digidol yn fwy effeithiol ar gyfer rhai pynciau nag yw ar gyfer eraill; dywedodd Frank Ciccotti, Pennaeth Ysgol Penfro, ac a oedd hefyd yn cynrychioli Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT), wrth y Pwyllgor y bu dysgu digidol yn llwyddiant mawr yn ei brofiad ef, pan gafodd ei ddefnyddio i addysgu Safon Uwch mewn TG, ond y bu'n drychineb o safbwynt dysgu ieithoedd modern.

78. Clywodd y Pwyllgor fod yn rhaid i'r offer a ddefnyddir i ddarparu dysgu digidol fod yn ddibynadwy ac o ansawdd uchel er mwyn iddo fod yn effeithiol; fod yn rhaid iddo gael ei gefnogi gan rwydwaith TGCh cadarn, gan gynnwys capasiti band eang, er enghraifft, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; a bod angen lledaenu arferion da yn effeithiol.

79. Awgrymodd Rex Phillips:

> "the jury is still out on the merits of digital learning."[37]

---

[35] Ystyr 'Moodle' yw 'Modular Object-Orientated Dynamic Learning Environment', ac fe'i defnyddir gan nifer o golegau a sefydliadau addysg.
[36] Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[37] Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

80. Dywedodd UCAC wrth y Pwyllgor fod ystyriaethau gwahanol ar gyfer defnyddio dysgu digidol gyda disgyblion iau nag 16 oed o'i gymharu â'i ddefnyddio gyda disgyblion sy'n hŷn nag 16 oed; er enghraifft, roedd angen mwy o oruchwyliaeth ar ddisgyblion rhwng 14 ac 16 oed wrth ddefnyddio dysgu digidol. Fodd bynnag, dywedodd CLlLC nad oedd hyn yn cael ei ategu gan dystiolaeth awdurdodau lleol.

81. Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd y Gweinidog fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i gynnal adolygiad o ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth.[38] Mae cwmpas yr adolygiad yn cynnwys, ymysg pethau eraill: sut i ddatblygu cynnwys digidol hygyrch, o ansawdd uchel, i'r ystafell ddosbarth, yn Gymraeg ac yn Saesneg; a sut y gall athrawon ddatblygu sgiliau dysgu digidol. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ym mis Mawrth 2012.[39]

82. Ychwanegodd y Gweinidog mai targed Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod band eang y genhedlaeth nesaf ar gael i bob cartref a busnes erbyn 2015.

> "There is currently a tender out, which the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is leading on, and our next-generation broadband Wales project is the mechanism by which we will seek to meet this target. As part of the project, infrastructure will also be made available to public sector buildings, including schools."[40]

83. Pwysleisiodd y Gweinidog gyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran cefnogi dysgu digidol yn eu hardaloedd hwy, a dywedodd mai cyfrifoldeb penaethiaid yw penderfynu sut y dylid manteisio ar ddysgu digidol yn y modd mwyaf effeithlon yn eu hysgolion.

84. Hoffai'r Pwyllgor i adrannau TG awdurdodau lleol fod yn llawer mwy rhagweithiol wrth hyrwyddo arferion da ac wrth gefnogi atebion dysgu digidol mwy arloesol mewn ysgolion yn eu hardaloedd hwy.

85. Dywedodd CLlLC wrth y Pwyllgor y bu dysgu digidol cyfrwng Cymraeg yn llai llwyddiannus yn eu profiad hwy na dysgu digidol drwy gyfrwng y Saesneg, o ganlyniad i ddiffyg arbenigedd yn y sector TG cyfrwng Cymraeg, o bosibl.

---

[38] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Gynnal Adolygiad o Ddulliau Addysgu Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth, Datganiad Cabinet ysgrifenedig, 22 Medi 2011

[39] Llywodraeth Cymru, Canfod, gwneud, defnyddio, rhannu: dysgu yn y Gymru ddigidol (Mawrth 2012)

[40] Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

86. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru a CLlLC roi cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol gwledig i sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cefnogi gan seilwaith TG gadarn.

**Argymhelliad 4: Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar y cyd â'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sicrhau bod ysgolion yn cael eu hystyried yn sefydliadau sector cyhoeddus â blaenoriaeth, er mwyn iddynt gael budd o'r broses o gyflwyno prosiect band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru.**

## Cymwysterau galwedigaethol

87. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn nodi bod mwy o bobl ifanc yn astudio cyrsiau galwedigaethol o ganlyniad i weithredu'r Mesur. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "We have also been able to double the number of vocational courses from 1,000 to 2,000 over the last couple of years, so there is significant progress overall in this area."[41]

88. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg, wedi'u seilio ar dystiolaeth anecdotaidd, ynghylch a yw'r Mesur yn helpu i hyrwyddo rhoi parch cydradd i gyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol.

89. Dywedodd CLlLC:

> "There are mixed and conflicting views about whether the parity of esteem between vocational and academic courses has been enhanced. It certainly has not been eradicated."[42]

90. Rhoddodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) enghraifft ymarferol o gamddealltwriaeth cyffredin ynghylch rhai cyrsiau galwedigaethol. Cyfeiriodd Rachel Searle at gwrs galwedigaethol busnes a menter cyn-16 a sefydlwyd gan ddarparwr hyfforddiant mewn blociau chwe wythnos; byddai un diwrnod yr wythnos yn cael ei wario yn yr ystafell ddosbarth ac un diwrnod yr wythnos yn y gweithle. Fodd bynnag, methodd y cwrs â denu digon o ddysgwyr i lenwi'r 15 o leoedd a oedd ar gael.

> "To some pupils and parents perhaps there was an existing academic course in business studies, so they were not sure how the business and administration course differed, but it was about the skills of maintaining a business, customer service skills and running a business. Therefore, a lot of it relates to perception, concept, parity and getting the right people. When we set up the course, it was stressed that it was not for those with lower ability and that it was very much for people with higher ability."[43]

### Stereoteipio ar sail rhyw

91. Wrth ateb cwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd Ann Keane fod stereoteipio ar sail rhyw yn fyw ac yn iach yn y dewis o gyrsiau mewn colegau addysg bellach, ac

---

[41] Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[42] Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[43] Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 1 Rhagfyr 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

yn y dewis o gyrsiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, ychwanegodd ei fod yn llai amlwg yn y dewis o gyrsiau academaidd traddodiadol.

92. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y dewis ehangach o gyrsiau o ganlyniad i'r Mesur wedi helpu wrth fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw, ond cytunodd â phryderon y Pwyllgor, gan ddweud:

> "there are still very apparent gender differences in subject choices, with some subjects more likely to contain female than male students, and vice versa. That tends to be more marked at advanced level and higher education level than at GCSE level."[44]

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid allweddol eraill, fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.**

### Dilyniant rhwng cyrsiau galwedigaethol

93. Mynegodd nifer o dystion eu pryderon wrth y Pwyllgor ynghylch y diffyg dilyniant rhwng cyrsiau galwedigaethol, yn enwedig rhwng cyrsiau lefel 1 a lefel 2. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Estyn fod llwybrau dilyniant wedi'u cynllunio rhwng cyrsiau galwedigaethol yn llawer mwy cyffredin erbyn hyn, yn rhannol o ganlyniad i fwy o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau.

### Darparu cyrsiau galwedigaethol

94. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth anecdotaidd a oedd yn awgrymu y gofynnir i staff addysgu cyrsiau, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol, nad oes ganddynt y wybodaeth neu'r sgiliau angenrheidiol i'w haddysgu, o leiaf ar ddechrau'r cwrs. Fodd bynnag, dywedodd ASCL:

> "My staff are competent in meeting the needs of 14 to 16-year-old pupils. They show an interest and we have provided training and support for those members of staff...The vocational courses that we offer, such as business, sport and leisure, and health and social care are all courses that are derivatives of traditional GCSE courses. It is just a totally different approach to teaching and learning that our staff have been able to adapt to. This is the right approach for quite a number of our young people."[45]

---

[44] Cofnod y Trafodion [paragraff 81], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[45] Cofnod y Trafodion [paragraffau 150 a 152], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Adolygiad y Dirprwy Weinidog o Gymwysterau 14-19**

95. Fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach, mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau wedi cyhoeddi adolygiad o gymwysterau i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd yr adolygiad yn eang ei gwmpas, ond yn canolbwyntio ar dair thema:

- nodi'r cymwysterau mwyaf perthnasol a sicrhau eu bod ar gael i ddysgwyr;
- sicrhau bod cyflogwyr yn deall y cymwysterau a bod ganddynt ffydd ynddynt; a
- sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i fod yn addas i'r diben.

96. Disgwylir i'r Adolygiad gyflwyno ei adroddiad tua diwedd 2012.[46,47] Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at un o amcanion yr Adolygiad:

> "Ein gweledigaeth yw sicrhau bod cyflogwyr yn deall ac yn gwerthfawrogi'r cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion Cymru hefyd."[48]

97. Hoffai'r Pwyllgor gael cadarnhad y bydd yr adolygiad o gymwysterau 14-19 yn ystyried y dilyniant rhwng:

- cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau academaidd, yn enwedig wrth fynd i addysg uwch;
- cyrsiau galwedigaethol lefel 1 a lefel 2; a
- cyrsiau galwedigaethol a gofynion cyflogwyr;

a hynny er mwyn sicrhau bod disgwyliadau dysgwyr ynghylch deilliannau cyrsiau yn gywir a thrwyadl.

**Yr effaith ar ddysgwyr sy'n anelu at fynd i addysg uwch**

98. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar yn nodi ei bod yn ymddangos nad yw gweithredu'r Mesur wedi cael fawr o effaith ar bobl ifanc sy'n anelu at fynd i addysg uwch, sy'n dal i ddewis pynciau academaidd "traddodiadol". Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gyrfa Cymru:

> "With regard to a wider choice in academic subjects, there is very little evidence to show that young people intending to apply for HE are in

---

[46] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi adolygiad eang o gymwysterau yng Nghymru, 29 Medi 2011
[47] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Cyhoeddi enw Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau, 18 Hydref 2011
[48] Ibid

practice choosing more vocational subjects – rather they are tending to stay with the more traditional courses which they see as being linked to HE requirements."[49]

99. Dywedodd Frank Ciccotti:

"Learners rarely mix and match academic and vocational subjects."[50]

100. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wrth y Pwyllgor fod nifer gynyddol o fyfyrwyr sy'n meddu ar gymwysterau galwedigaethol yn mynd i addysg uwch:

"Gwelwyd y cynnydd hwn cyn gweithredu'r Mesur, fodd bynnag, mae'n glir bod nifer y dechreuwyr galwedigaethol i SAUau o SABau yng Nghymru wedi cynyddu, fel y mae'r gyfran o fyfyrwyr sydd â chymwysterau galwedigaethol fel eu cymhwyster adeg mynediad."[51]

Cyfeiriodd Addysg Uwch Cymru (AUC) hefyd at y cynnydd hwn.

**Yr effaith ar golegau addysg bellach**

101. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor y bu manteision sylweddol o gael ysgolion a cholegau'n cydweithio'n agosach â'i gilydd, gan gynnwys gwerth am arian, mwy o ddewis, a'r ffaith bod rhai dysgwyr a fyddai wedi ymddieithrio fel arall, efallai, yn parhau i fod wedi'u hysgogi. Dywedodd fod cydweithio gwell wedi herio ysgolion a cholegau i wneud yr hyn nad oedd yn gyfarwydd iddynt; fod athrawon yn elwa o gwrdd ag athrawon o sefydliadau eraill; a bod yr un peth yn wir yn achos rheolwyr.

102. Nododd pobl ifanc hefyd y gallai'r rheini rhwng 14 a 19 oed sy'n dewis astudio mewn colegau addysg bellach am o leiaf ran o'r wythnos elwa mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy gael dewis ehangach o gyrsiau galwedigaethol ac amgylchedd dysgu gwahanol o'i gymharu â'u hysgol hwy; a thrwy wneud ffrindiau newydd. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth hefyd y gall teithio i ysgol neu goleg arall fod yn brofiad unig, a bod amgylchedd dysgu newydd yn gallu bod yn brofiad cyffrous, ond yn un heriol hefyd.

---

[49] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyrfa Cymru, CYP(4) LS14

[50] Cofnod y Trafodion [paragraff 158], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[51] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, CYP(4) LS20

103. Roedd rhai tystion yn dal i gwestiynu lefel y cydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Dywedodd Lleu Williams o'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) wrth y Pwyllgor:

> "Yn anecdotaidd, gwelwn fod rhai ysgolion yn ceisio cynnig y 30 pwnc dan y Mesur. Drwy wneud hynny, gallant gadw gafael yn y myfyrwyr, gan beidio â rhoi cyfle iddynt fynd i goleg addysg bellach."[52]

104. Roedd materion eraill a fynegwyd gan dystion yn cynnwys darparu gwasanaethau cymorth dysgu i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed mewn colegau, a mwy o hyfforddiant neu gymorth i ddarlithwyr addysg bellach ynghylch ymdrin â dysgwyr iau. Dywedodd ASCL, UCAC, ac eraill wrth y Pwyllgor fod angen cymorth ychwanegol ar rai darlithwyr coleg i addysgu dysgwyr iau (sef dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed):

> "However, my concern lies with the college staff who have a different approach to teaching and learning, because they are used to dealing with 16 to 19-year-olds, which is a different animal altogether. We have had to give a lot of support to the college staff for them to be able to cope with the needs of our young people who are going there, because many of those young people tend to be more dependent, they are not mature with regard to their learning and many of them are only 14."[53]

105. Dywedodd UCU wrth y Pwyllgor:

> "As a result of the pathways, we are now seeing 14 and 15-year-olds moving into further education colleges to study. Currently, the postgraduate certificate of education for further education only trains you to teach students aged 16 and over. Obviously, there are different teaching methods and mechanisms to be applied to the teaching of a 14-year-old. This is now leading to an increased pressure on lecturers in colleges."[54]

106. Dywedodd y Gweinidog nad oedd ganddo dystiolaeth fod hwn yn fater cyffredin, ac nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno cynigion ynghylch darparu rhagor o hyfforddiant neu gymwysterau proffesiynol ar gyfer darlithwyr addysg bellach.

107. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch rhoi cymorth i ddarlithwyr i ymdrin â disgyblion iau, dywedodd John Graystone o ColegauCymru wrth y Pwyllgor:

---

[52] Cofnod y Trafodion [paragraff 127], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[53] Cofnod y Trafodion [paragraff 150], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[54] Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "That is a valid point. We are currently in discussion with the trade unions about a common contract. We are looking for 30 hours of continuing professional development every year to be part of that contract. The teaching of 14 to 16-year-olds will be a key feature of that."[55]

108. Aeth yn ei flaen i ddweud:

> "Broadening the issue out, we have a system of standards for teachers, but we do not have a qualifications framework in Wales yet; we are pushing the Welsh Government on that issue. Perhaps the work of this Committee will reinforce that point and provide evidence to support it. We feel that the qualifications framework needs to reflect all of the changes that are taking place, one of which is the teaching of 14 to 16-year-olds."[56]

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach**

109. Er gwaethaf datblygiadau diweddar, mae nifer o dystion yn dal yn pryderu am allu colegau addysg bellach i ddarparu'r holl ddewisiadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Cytunodd UCU, gan ddweud bod "lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn isel iawn o fewn colegau addysg bellach ac mae angen sicrhau ein bod yn gallu ei chodi." Aeth Lleu Williams yn ei flaen i ddweud wrth y Pwyllgor y gallai geirfa a therminoleg dechnegol fod yn broblem hyd yn oed i ddarlithwyr sy'n siarad Cymraeg, gan eu bod yn aml wedi astudio eu gradd addysg uwch drwy gyfrwng y Saesneg.

110. Rhoddodd Dorian Williams, (Pennaeth Ysgol Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin, ac a oedd yn cynrychioli ASCL) enghraifft ymarferol o'r problemau:

> "Mae her sylweddol hefyd pan ydych yn cynnig cwrs galwedigaethol i sicrhau bod aseswyr mewnol y coleg yn hyddysg yn y Gymraeg, a bod gennych unigolyn allanol sy'n gallu edrych ar waith y plant, yn enwedig pan yr ydych yn ymwneud â gwaith sydd heb arholiad terfynol. Gallaf hefyd enwi un pwnc, sef dawns, lle mae wedi bod yn gwbl amhosibl i bartneriaid addysg Gymraeg Dyfed ddod o hyd i fwrdd arholi sy'n gallu cynnig yr unedau yn y Gymraeg...Ar draws Cymru, yr wyf yn hyderus i ddweud wrthych bod sefydliadau addysg bellach yn llusgo'u traed o ran hybu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg."[57]

111. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

---

[55] Cofnod y Trafodion [paragraff 242], 7 Rhagfyr 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[56] Ibid
[57] Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "I am pleased with the progress that is being made now by the further education sector in establishing bilingual champions. There are a number of measures in place. I do not anticipate us wanting to reduce the investment that we are making in Welsh-medium provision and, therefore, I do not anticipate us wanting to reduce the grants that we are making in this area."[58]

112. Ychwanegodd y Gweinidog y bydd yn parhau i weithio gyda ColegauCymru a cholegau addysg bellach yn uniongyrchol i hyrwyddo cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach, drwy ddefnyddio hyrwyddwyr dwyieithrwydd, ffora cyfrwng Cymraeg a chanolfan arbenigol Sgiliaith. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gweithrediadau hyn.

[58] Cofnod y Trafodion [paragraff 122], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr

## Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr

113. Mae gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn rhan allweddol o'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 a, bellach, y Mesur.

114. Roedd y dystiolaeth gychwynnol a gafodd y Pwyllgor ynghylch gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn tynnu sylw at rywfaint o ddryswch ynglŷn â'r rolau gwahanol. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd Gyrfa Cymru ddisgrifiad clir o'r rolau amrywiol hyn:

> **Learning Coaching** supports learners by focussing on learning styles and identifying any barriers to learning and working with the learner and the learning settings to reduce these barriers.
>
> **Careers advisers** provide impartial support to learners to develop their career management skills, and improve their self awareness and awareness of opportunities post compulsory education in order to make realistic decisions at the post-16 / post-18 transition phases.
>
> **Personal support** is provided by many organisations to address specific identified issues e.g. drug abuse, housing problems, behavioural problems, disengagement.[59]

115. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog: "Yn fuan, byddwn yn gofyn i Estyn ymgymryd ag arolwg ar y gwasanaethau cymorth dysgu."[60]

## Anogwyr Dysgu

116. Dywedodd CLlLC wrth y Pwyllgor: "the real success story of the Measure has been the introduction of Learning Coaches". Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn datgan bod cymorth yr anogwyr dysgu yn ddatblygiad hollbwysig o fewn y Llwybrau Dysgu, ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng y Llwybrau Dysgu a'r drefn flaenorol.[61]

---

[59] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyrfa Cymru, CYP(4) LS14

[60] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, CYP(4) LS19

[61] Gwefan Llywodraeth Cymru, Cymorth yr anogwr dysgu

117. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar wasanaethau cymorth i ddysgwyr,[62] penderfynodd y Gweinidog beidio ag argymell cael un model cenedlaethol ar gyfer darparu anogwyr dysgu, ac mae hyn wedi arwain at amryw o ffyrdd o'u darparu. Weithiau, ceir anogwyr dysgu pwrpasol, ond weithiau bydd aelodau o staff a oedd wedi'u cyflogi eisoes yn ymgymryd â'r rôl. Dywedodd Cydgysylltwyr y Rhwydweithiau 14-19 wrth y Pwyllgor fod strwythurau gwahanol ledled Cymru, ac o un rhanbarth i'r llall, ar gyfer darparu anogwyr dysgu.

118. Dywedodd y penaethiaid wrth y Pwyllgor fod y system anogwyr dysgu yn dal i gael ei hymsefydlu ac i esblygu. Roeddent yn cydnabod bod y system o gael anogwyr dysgu pwrpasol, fel y'i rhagwelwyd yn wreiddiol, yn afresymol o ddrud. Dywedodd Frank Ciccotti:

> "Unless we accept that most learning coaching will take place at the level of the form tutor in schools, it is not possible to deliver this. The people who need learning coaching the most are those who are at risk of dropping out of education or those who have great barriers to progress and they are the ones who need much more intensive support."[63]

119. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod sawl mantais yn deillio o gael un unigolyn i ymgymryd â holl swyddogaethau anogwr dysgu, ond bod hynny'n ddrud. Penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r gwasanaeth anogwyr dysgu fod yn swyddogaeth y gellid ei darparu gan unigolion neu gan dîm.

120. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Rhaglen Genedlaethol i Hyfforddi Anogwyr Dysgu i hyrwyddo safonau proffesiynol.

121. O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, daw'r Pwyllgor i'r casgliad y gall Anogwyr Dysgu a gwasanaethau cymorth anogwyr dysgu fod yn gymorth effeithiol iawn i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn y modd y darperir Anogwyr Dysgu mewn ardaloedd gwahanol.

### Cynllun Llwybrau Dysgu (neu ddogfen debyg)

122. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Ddogfen Llwybr Dysgu, sef Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ynghylch gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a'r ddogfen Llwybrau Dysgu (Chwefror 2011), yn datgan:

> "2.1 Rhaid i benaethiaid ysgolion uwchradd a gynhelir a phrifathrawon sefydliadau o fewn y sector addysg bellach sicrhau bod eu disgyblion neu

[62] Llywodraeth Cymru, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Canllawiau ynghylch gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a'r ddogfen Llwybrau Dysgu
[63] Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

eu myfyrwyr yn derbyn Dogfen Llwybr Dysgu. Rhaid i'r Ddogfen roi manylion am y cwrs astudiaeth y mae ganddynt hawl i'w ddilyn ac unrhyw gymorth i'w roi iddynt fel dysgwyr. Rhaid i'r ddogfen gael ei diwygio neu ei hail-lunio os oes amrywiadau i gwrs astudiaeth y disgybl neu'r myfyriwr.

"2.2. Mae a wnelo'r Ddogfen Llwybrau Dysgu â'r disgybl neu'r myfyriwr a ddylai gael ei annog i berchenogi ei ddogfen a bod yn rhan o'r gwaith o gyfrannu at ei datblygiad wrth i'w ddysgu a'i gyflawniadau ddatblygu.

"2.3. Nid oes fformat penodedig ar gyfer y Ddogfen Llwybrau Dysgu. Gall fod ar bapur, yn electronig neu ar-lein. Gall dogfen sydd eisoes yn bod gael ei defnyddio os yw'n cofnodi'r cyrsiau astudio ac unrhyw gymorth dysgu sydd ei angen.

"2.4. Mae fersiwn ar-lein o'r Ddogfen Llwybrau Dysgu ar gael ar Gyrfa Cymru Ar-lein, all gael ei chwblhau gan y disgybl neu'r myfyriwr ar-lein neu all gael ei hargraffu er mwyn cwblhau copi caled."

123. Fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad, casglwyd 790 o ymatebion gan bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed i holiadur. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A oes gennych gynllun ysgrifenedig ar gyfer pa gyrsiau rydych am eu hastudio? Gelwir hwn weithiau'n ddogfen neu'n gynllun llwybrau dysgu', dywedodd 43% o bobl ifanc fod ganddynt ryw fath o ddogfen gynllunio (fel Cynllun Llwybrau Dysgu); dywedodd 52% nad oedd ganddynt gynllun o'r fath; a dywedodd 5% nad oeddent yn gwybod.

124. Mewn ymateb i'r dystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"There is a requirement on schools and colleges to ensure that all pupils and learners have a learning pathway document. As a minimum, the document must contain details of the learner's course of study and the learning support with which they will be provided. Although, that can contain far more information about their learning and their future life and career aspirations and how those could be met. So, it is concerning for us to hear that."[64]

125. Dywedodd hefyd:

[64] Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> "Our own indications, based on returns from schools and colleges was that over 80% of learners already had a learning pathway document by September of last year."[65]

126. Fel rhan o'u hymweliadau anffurfiol ag ysgolion, gofynnodd Aelodau unigol o'r Pwyllgor am y defnydd a wneir o Gynlluniau Llwybrau Dysgu (neu ddogfennau tebyg). Clywsant dystiolaeth anecdotaidd yn aml gan bobl ifanc nad oedd Cynlluniau Llwybrau Dysgu (neu ddogfennau tebyg) yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Ategwyd hyn gan dystiolaeth Joyce M'Caw, a ddywedodd:

> "It is early days for the learning pathways plan. It is a requirement of the learning pathways documentation guidance that there be one. Careers Wales has developed that, and it does sit on Careers Wales online, but it is still early days in terms of usage."[66]

**Amser i ddewis**

127. Dywedodd rhai o'r bobl ifanc na roddwyd digon o amser iddynt i ddewis cyrsiau. Cadarnhawyd hyn gan un o Gydgysylltwyr y Rhwydweithiau 14-19, a ysgrifennodd:

> "There is a very real need to balance the time allocated for learners to make well informed choices between the time when they receive their examination results and the time when courses begin."[67]

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, gomisiynu adolygiad o wasanaethau cymorth i ddysgwyr a gofal bugeiliol, gan gynnwys gwerthuso cysondeb y modd y darperir anogwyr dysgu ac eglurhad ynghylch rôl y rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth dysgu.**

128. Fel rhan o'r adolygiad, dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ailystyried a ddylid cyhoeddi canllawiau sy'n rhoi mwy o gyfarwyddyd sy'n pwysleisio rolau a chyfrifoldebau gwahanol anogwyr dysgu, cynghorwyr gyrfaoedd a'r rheini sy'n darparu cymorth personol.

129. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 a CLlLC i sicrhau bod arferion gorau mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cael eu lledaenu'n effeithiol.

---

[65] Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[66] Cofnod y Trafodion [paragraff 268], 1 Rhagfyr 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[67] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gydgysylltwyr Rhwydweithiau 14-19 Cymru, CYP(4) LS03

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru werthuso ac, os oes angen, gyflymu'r broses o weithredu a defnyddio Cynlluniau Llwybrau Dysgu i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u rhoi ar waith mewn modd cyson ym mhob ysgol a gynhelir.**

130. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau sy'n cynghori y dylid defnyddio terminoleg gyffredinol ar gyfer Cynlluniau Llwybrau Dysgu, i wneud diben ac effeithiolrwydd y dogfennau hyn yn fwy clir, ac er mwyn iddynt gael eu deall yn well.

## Cyngor diduedd ynghylch gyrfaoedd

131. Un o chwe elfen wreiddiol y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 yw “Cyngor a Chyfarwyddyd Diduedd ynghylch Gyrfaoedd”. Caiff cyngor ar yrfaoedd ei ddarparu fel arfer gan athrawon gyrfaoedd, a gyflogir gan yr ysgol, a chan gynghorwyr gyrfaoedd annibynnol, a gyflogir gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd (Gyrfa Cymru). Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch amrywioldeb y cyngor ar yrfaoedd a roddir i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, ond nid oedd yn glir sut y darperir y cyngor hwn, a phwy a oedd yn ei ddarparu.

**Cyngor diduedd ynghylch gyrfaoedd**

132. Mae’r Pwyllgor o’r farn ei bod yn hanfodol fod pob dysgwr yn cael cyngor annibynnol a diduedd pan fydd yn 14 oed ac yn 16 oed ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywodd, mae’r Pwyllgor yn pryderu nad yw hyn yn digwydd bob amser.

133. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Estyn:

> “There is still a lack of impartial advice at key points (at age 14 and 16) when learners make choices. Reductions in institutional budgets result in increasing competition for 16-19 learners between colleges and school sixth forms because the income of both is dependent on the number of full-time learners they enrol.”[68]

**Darparu cyngor ynghylch gyrfaoedd**

134. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu rôl y Gwasanaeth Gyrfaoedd a’r modd y caiff ei gyllido. Mae Uchelgeisiau i’r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2010, yn cynnwys 60 o argymhellion ac yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf yn natblygiad y gwasanaeth. O ganlyniad, mae Gyrfa Cymru yn gweithio tuag at sefydlu un sefydliad erbyn mis Ebrill 2012, yn hytrach na chael y chwe chwmni annibynnol, di-elw sy’n bodoli ar hyn o bryd.

135. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gyrfa Cymru ei bod yn debygol y bydd ei waith gyda disgyblion blwyddyn 9 yn lleihau’n sylweddol o ganlyniad i doriadau cyllidebol. Yn y dyfodol, mae’n debygol y bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc fregus, yn hytrach na darparu gwasanaeth i bawb.

[68] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Estyn, CYP(4) LS11

136. Ar 31 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dewisiadau ar hyn o bryd ynghylch darparu gwasanaethau gyrfaoedd o fis Ebrill 2013 ymlaen. "Un o'r ystyriaethau hanfodol yw penderfynu ai cyflenwi drwy gyfrwng y sector cyhoeddus neu drwy'r sector preifat sydd fwyaf priodol."[69]

### Darparu cyngor diduedd i rieni neu warcheidwaid

137. Yn aml, rhieni neu warcheidwaid yw'r prif ffynhonell ar gyfer cyngor a chyfarwyddyd pan fydd dysgwyr yn dewis cyrsiau. Fodd bynnag, weithiau gall y wybodaeth a'r profiad sydd gan rieni neu warcheidwaid mewn perthynas â'r cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen ar y farchnad lafur fod yn amherthnasol erbyn hyn.

138. Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi synnu ynghylch nifer yr agweddau a'r bobl amrywiol sy'n dylanwadu ar bobl ifanc wrth iddynt ddewis eu cyrsiau pan fyddant yn 14 oed neu'n 16 oed. Roedd rhai o'r agweddau a grybwyllwyd yn cynnwys lleoliad cyrsiau, teithio i'r lleoliadau hynny, stereoteipio ar sail rhyw, dewisiadau ffrindiau, ac amserlennu.

139. Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon fod gan bob dysgwr, a rhieni neu warcheidwaid, fynediad at gyngor annibynnol a diduedd wrth ddewis cyrsiau pan fydd dysgwyr yn 14 neu'n 16 oed.

140. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn glir y dylai cynrychiolwyr colegau fynd i nosweithiau rhieni mewn ysgolion a chael mynediad llawn a gweladwy at ddisgyblion a dysgwyr i'w galluogi i ddewis cyrsiau mewn modd mwy annibynnol.

---

[69] Llywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert (y Dirprwy Weinidog Sgiliau), Gwaith i Ystyried yr Opsiynau ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Gyrfaoedd yn y Dyfodol, Datganiad Cabinet ysgrifenedig, 31 Ionawr 2012

## Dysgwyr bregus (gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol)

141. Dyma argymhelliad 21 adroddiad y Pwyllgor a fu'n ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) yng Nghyfnod 1 (cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2008):

> "Nid yw'r Pwyllgor yn fodlon bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gallu i ddisgyblion mewn addysg brif-ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gymryd rhan yn y cyfleoedd y bydd y Mesur arfaethedig yn eu darparu. Cyn i'r Mesur gychwyn, rhaid i'r Gweinidog nodi'n glir y cyfleoedd a'r cymorth y mae angen iddyn nhw fod ar gael i ddisgyblion a rhieni."[70]

142. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gyrfa Cymru wrth y Pwyllgor:

> "With regard to young people who have Learning Difficulties and Disabilities (LDD), the Learning and Skills Plan has identified needs which are not always being fulfilled by the Learning Providers e.g. taxi to and from home, additional support on the programme of learning. Parents' expectations are being raised but not always fully met causing great distress to them and their child."[71]

143. Ym mis Ionawr 2012, siaradodd y Pwyllgor â dau berson ifanc y tarfwyd ar eu haddysg. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor iddynt am lefelau'r cymorth yr oeddent wedi'i gael mewn ysgolion i'w helpu i ddewis cyrsiau ac i wneud gwaith ysgol yr oeddent wedi'i golli. Teimlai aelodau'r Pwyllgor fod eu tystiolaeth yn rymus iawn. Dywedodd un o'r bobl ifanc:

> "I could have had a lot more support with it, because obviously I was brought up in care, so I moved around quite a lot. I think that I went to 12 or 13 schools in total. Moving from one to another, I was getting less and less support."[72]

144. Yn ddiweddarach, dywedodd: "No-one helped me go through my choices."[73]

[70] Pwyllgor Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), Adroddiad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, Rhagfyr 2008
[71] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyrfa Cymru, CYP(4) LS14
[72] Cofnod y Trafodion [paragraff 166], 12 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[73] Cofnod y Trafodion [paragraff 170], 12 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

145. Cadarnhaodd Siân Browne, Pennaeth Dysgu i Fyw, Llamau, fod y profiad hwn o ddiffyg cymorth mewn ysgolion yn un a rennir gan nifer o blant sy'n gadael gofal, a phobl ifanc fregus:

> "My feeling is that they do not always get the support that they need to try to maintain their education, and as a result, they come with quite significant barriers to learning: little self esteem or confidence that they can learn, or motivation. A lot of them feel that they cannot learn."[74]

146. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod angen hyd yn oed mwy o gymorth a chyfarwyddyd o hyd ar ddysgwyr bregus nag a roddir ar hyn o bryd, er bod rhywfaint o dystiolaeth fod lefelau cymorth wedi cynyddu ychydig dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf.

147. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd fod grantiau 14-19 wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i ariannu cymorth ar gyfer cyrsiau cyn-fynediad a lefel 1, a ddewisir yn aml gan ddysgwyr bregus. Bydd angen dod o hyd i gyllid prif ffrwd fel bod y cymorth hwn yn parhau.

148. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor fod y cymorth a roddir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi gwella yn gyffredinol.

> "The support for pupils with additional learning needs has improved. The range of courses has expanded at entry level and level 1, which are ideal for those pupils. In relation to the learning coaches, I have to admit that we have not done a formal survey of the work of the learning coaches. So, I would not like to give you a definitive account of the Estyn view of learning coaches across Wales. However, I can say, based on the inspections of individual schools, that we do see the impact of their support as a positive feature."[75]

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru werthuso effaith Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr bregus mewn colegau addysg bellach.**

---

[74] Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 12 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[75] Cofnod y Trafodion [paragraff 208], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Sgiliau sy'n berthnasol i farchnadoedd llafur Cymru

149. Mynegwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymchwiliad ynghylch sgiliau newydd-ddyfodiaid ifanc i'r farchnad lafur o ran eu cyflogadwyedd.

150. Mae angen sicrhau bod cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, yn chwarae mwy o ran wrth (a) gynllunio darpariaeth 14-19 a (b) darparu cyngor ar yrfaoedd i ddysgwyr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw gwneud hynny'n hawdd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle y mae llai o fusnesau a lle y gall y galw ar nifer fach o gyflogwyr fod yn sylweddol.

151. Mae angen hefyd i'r cynghorau sgiliau sector ymwneud mwy â'r Rhwydweithiau 14-19; wrth gynllunio darpariaeth; ac wrth ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod y sefyllfa wedi gwella ychydig. Eto, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'n hawdd gwneud hyn.

152. Mae maint a capasiti'r cynghorau sgiliau sector yn amrywio'n sylweddol. Mae llawer o adnoddau gan rai, tra bo adnoddau prin gan rai eraill; weithiau, un person yn unig sy'n gweithio iddynt. Mae hynny'n cael effaith ar eu gallu i gymryd rhan yn effeithiol yn y Rhwydweithiau 14-19. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r cynghorau sgiliau sector flaenoriaethu cymryd rhan yn y Rhwydweithiau 14-19 ac yn y gwaith o gynllunio darpariaeth 14-19.

153. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi prosesau clir ar gyfer sicrhau bod y cynghorau sgiliau sector yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio darpariaeth 14-19.

154. Nododd y Pwyllgor y bydd gan Fwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Cymru, sydd wedi'i ailffurfio, rôl allweddol wrth sicrhau bod cyflogwyr yn cymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio darpariaeth 14-19.

155. Hefyd, dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, fel mater o frys, flaenoriaethu'r gwaith o ddarparu gwybodaeth gyfoes am y farchnad lafur leol a sicrhau ei bod ar gael i bawb sy'n cynllunio hyfforddiant ac addysg, gan gynnwys y Rhwydweithiau 14-19. Mae dibynadwyedd gwybodaeth yn hanfodol os bwriedir seilio'r ddarpariaeth a dewisiadau dysgwyr arni. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd geisio rhagweld anghenion y dyfodol o ran sgiliau yn fwy effeithiol. Er bod hyn yn dasg anodd, mae'n hanfodol fod gan gyflogwyr gyflenwad lleol o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â chymwysterau yn y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

156. Mae rhai bylchau sgiliau mawr mewn sectorau allweddol o hyd (a bydd cyflogwyr felly'n gorfod targedu recriwtiaid dramor), ac mae angen i'r sector hyfforddiant ac addysg fynd i'r afael â hwy mewn modd mwy effeithiol.

157. Rhoddodd Gareth Williams o SgiliauAdeiladu enghraifft ymarferol:

> "Mae plymio y tu allan i'n cwmpas, ond rwyf wedi edrych ar hyn. Rwy'n defnyddio'r term 'Powys plumber', ond nid ydynt yn cynnig plymio yng ngholegau Powys am nad oes digon o gyflogwyr i gymryd y prentisiaid hynny ymlaen. Ni allaf gredu nad oes angen plymwyr ar gyfer y dyfodol, pan fydd y criw sy'n gweithio ym Mhowys ar hyn o bryd yn ymddeol. O ble y daw'r bobl hynny? Byddant yn dod o'r tu allan i'r ardal. Felly, cwblhau'r brentisiaeth drwy'r NVQ yw'r sialens, ac, fel y soniais, mae'r niferoedd wedi'u capio. Dim ond nifer benodol y gallwn ei darparu mewn blwyddyn, ac rwy'n credu bod hynny'n annigonnol. Mae'r sefyllfa yn debyg o ran y ffaith bod mwy o bobl o lawer ar hyn o bryd yn dilyn hyfforddiant llawn amser mewn colegau, sy'n beth da, ond ni fydd llawer o'r rheini'n cwblhau eu hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys i weithio yn y diwydiant. Mae sialens arall i ni yn hynny o beth. Felly, mae angen inni sicrhau bod mwy o'r bobl sy'n astudio cyrsiau llawn-amser mewn colegau yn ymgymhwyso'n llawn. Nid oes ateb hawdd i hynny ar hyn o bryd. Mae atebion yn cael eu hystyried o ran strwythur prentisiaethau ac mae angen inni edrych ar hynny oherwydd, hyd yn hyn, nid yw wedi gweithio i nifer fawr o bobl. Bydd yn arwain at brinder arall pan fydd y diwydiant ar i fyny eto."[76]

158. Enghraifft arall, y cyfeiriodd un o aelodau'r Pwyllgor ati, yw sgiliau peirianneg yn Nhor-faen: ".... a company ... has had applications from India, but cannot get applicants locally. This should be an attractive career for young people in Gwent, but there do not appear to be any links between these big employers, the college and schools."[77]

159. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth nad oes gan recriwtiaid ifanc weithiau'r sgiliau "bywyd" ymarferol sydd eu hangen ar gyflogwyr.

160. Gofynnodd Iestyn Davies o'r Ffederasiwn Busnesau Bach:

> "is the school the best place to deliver that kind of skills-specific education? It is more fitted to this rounded individual kind of approach, which we cherish in the right place. However, if you speak to employers - this is more than just employers saying, 'Things ain't as good as when I

[76] Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 18 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[77] Cofnod y Trafodion [paragraff 28], 18 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

> was in school or college, or did my apprenticeship'- there is this continual awareness that individuals do not possess the correct life skills to be able to turn up to work on time, do a full day's work or a full week's work, and thrive in the workplace."[78]

161. Roedd gan y Pwyllgor rai pryderon hefyd y gallai'r dewis o gyrsiau a gynigir fod yn seiliedig ar sgiliau athrawon a darlithwyr yn hytrach nag ar anghenion cyflogwyr lleol.

162. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd NTfW:

> "A greater range of vocational courses has been offered but the appropriateness of some, their relevance to the occupational sector they are linked to and the value employers or further education or apprenticeship providers place on some of these qualifications is questionable. Planning of vocational course provision and the learning offer often occurs at curriculum team level within a local network or sometimes within a local school. Consultation with sector skills councils who represent employers or with higher level learning providers (FE, HE, Work Based Learning [WBL] /Apprenticeship providers) is limited at best. This can result in courses offered that can be delivered within the school environment, maximising the use of existing staff and resources and meet the required number of vocational course offers at the necessary level. However, whilst meeting the measure that course may well not be valued or recognised outside of the school learning environment or within the world of work. This can cause an issue with work based / vocational progression when the learner leaves school, with the pupil assuming the qualification provides a far stronger passport to the next level / stage than it actually does."[79]

163. Holodd aelodau'r Pwyllgor y Dirprwy Weinidog Sgiliau am gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i hyrwyddo gwell cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio darpariaeth 14-19 a chyflogwyr lleol a chynghorau sgiliau sector, ac ynghylch a ddylai'r ddyletswydd i ymgynghori â chyflogwyr lleol a chynghorau sgiliau sector fod yn ofyniad statudol. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "There is no doubt that this needs to be improved, because employers have a crucial role to play in ensuring the success of the pathways.

---

[78] Cofnod y Trafodion [paragraff 101], 1 Rhagfyr 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

[79] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan NTfW, CYP(4) LS12

Employers can be prime beneficiaries of this system if we get it right, and that demands communication in both directions. So, your comments are not untypical in that regard. Sector skills councils have a much stronger role to play in helping to bring about that situation.

"One of the roles of the reformed Wales Employment and Skills Board, which I will chair from now on, will be to make itself far more aware of the qualifications network in Wales and the way in which it can collaborate with educational providers, and advise the Government on employers' needs. So, it is a matter that we are taking very seriously."[80]

164. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned y farchnad lafur i ddarparu gwybodaeth fwy effeithiol am y farchnad lafur i'r rheini sy'n cynllunio hyfforddiant.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru lunio rhestr o weithrediadau allweddol y gall eu rhoi ar waith yn gyflym i sicrhau bod cyflogwyr yn chwarae rhan fwy cyson ac effeithiol yn y gwaith o gynllunio a gweithredu darpariaeth 14-19. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd lunio rhestr o'r gweithrediadau allweddol a fydd yn sicrhau ei bod yn haws i'r rhwydweithiau 14-19 gael gafael ar wybodaeth gywir a chyfoes am y farchnad lafur.**

[80] Cofnod y Trafodion [paragraffau 86 ac 87], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Rôl darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith

165. Yn ystod yr ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y diffyg rôl statudol, neu rôl anstatudol wedi'i diffinio'n glir, ar gyfer darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith, er bod y sefyllfa wedi gwella ychydig ers cyflwyno swyddi dan hyfforddiant (ym mis Awst 2011).

166. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dyfynnodd NTfW sylwadau un o'i aelodau:

> "Historically, 14-19 networks were a closed shop to training and apprenticeship providers and NTfW have an important role to play here including undertaking special projects to develop relationships and transformation between 14-19 networks and the work based learning network and NTfW members. NTfW has experienced some successes in helping break down these barriers although there are local and regional variations. We read about calls from the Welsh Government to reduce the number of courses with no credible outcome or delivery of courses by teachers without specialist training in that vocational area, but in reality will this happen?"[81]

A hefyd:

> "NTfW received Welsh Government Transformation funding 2009-2010 to employ 4 officers pan Wales to develop greater links with 14-19 networks. This was generally very successful in opening doors and ensuring NTfW wider representation on networks, although post project, the picture is still patchy with local variation regarding representation."[82]

Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "The Chair and I have the advantage of having been on the Stage 1 Committee four years ago. The issue of work-based learning providers was raised then, and the legal advice we were given at that time was that they could not be included in the Measure because, in the main, they are private companies. That is why they are not included explicitly.
>
> "However, as part of the recent tender process for all work-based learning providers offering apprenticeships, all providers were asked to confirm that they would do their utmost to engage with the 14-19 learning

[81] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan NTfW, CYP(4) LS12
[82] Ibid

networks. I understand that many are doing that in a very direct way by participating with the partnerships. It may not be possible to put this formally within the Measure, but, linked with FE colleges, we see work-based learning providers as having a very important role to play, particularly given that they can offer some of the most realistic work-based experiences. The indications are that they are working with us well."[83]

167. Cynigiodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried rhoi rôl statudol i ddarparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith yn y Mesur. Os nad yw'n bosibl creu rôl statudol yn gyfreithiol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi rôl glir darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith wrth gynllunio a darparu addysg a hyfforddiant 14-19.

[83] Cofnod y Trafodion [paragraff 147], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg

168. Yn ystod yr ymchwiliad, cafodd nifer o faterion eu crybwyll ynglŷn ag effaith y Mesur ar addysg cyfrwng Cymraeg. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ei bod weithiau'n fwy o her i ysgolion cyfrwng Cymraeg gydweithio oherwydd y pellteroedd hwy rhwng partneriaid posibl.

169. Mae hefyd yn fwy o her i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg ddarparu dewis ehangach o gyrsiau heb greu dosbarthiadau â nifer anymarferol o fyfyrwyr. Mae hyn yn her benodol i ysgolion dwy ffrwd; dywedodd UCAC fod yr heriau sy'n wynebu ysgolion dwy ffrwd yn "anferthol".[84]

170. Mae grantiau 14-19 wedi'u defnyddio i ariannu'r costau ychwanegol a wynebir gan ysgolion cyfrwng Cymraeg.

171. Mewn ymateb i bryderon am ariannu gofynion y Mesur o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> "We have ring-fenced funding for Welsh-medium and bilingual vocational courses for the next two years. Through the Welsh-medium education strategy, we have put additional resources into training the trainers, which is an important element that ensures that more provision can be rolled out."[85]

172. Dywedodd Ann Keane wrth y Pwyllgor: "mae mwyafrif yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cwrdd â'r galw yn llawn yn barod. Fodd bynnag, mae her arbennig iddynt wrth sicrhau arbenigedd galwedigaethol."[86]

173. Mae gan y Pwyllgor bryderon hefyd am nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Cymraeg fel ail iaith (cwrs byr) ac ansawdd y cyrsiau byr, sef barn a rennir gan y Gweinidog:

> "There is a legitimate debate to be had about whether the short course fulfils our objectives for learning Welsh."[87]

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith gweithredu'r Mesur ar addysg Gymraeg a dwyieithog, gan gynnwys ysgolion dwy ffrwd.**

---

[84] Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 17 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[85] Cofnod y Trafodion [paragraff 122], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[86] Cofnod y Trafodion [paragraff 118], 23 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[87] Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 26 Ionawr 2012, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

174. Dylai'r adolygiad werthuso'r ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod dewis ehangach o 30 o gyrsiau yn cael ei ddarparu mewn gwirionedd i ddysgwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

175. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Cymraeg fel ail iaith (cyrsiau byr) er mwyn asesu a yw'r cyrsiau byr yn ddull effeithiol o sicrhau gafael sylfaenol gadarn ar y Gymraeg.

176. Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â ColegauCymru, asesu'n gywir lefelau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob coleg addysg bellach a darpariaeth dysgu sy'n seiliedig ar waith. Dylai hefyd lunio argymhellion wedi'u seilio ar y gwaith ymchwil hwn, i ategu'r targedau a'r nodau strategol yn y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

## Cyfraddau aros-ymlaen a dysgwyr sydd wedi ymddieithrio

177. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi'u calonogi'n fawr gan y dystiolaeth a roddodd nifer o dystion fod gweithredu'r Mesur wedi helpu i annog mwy o bobl ifanc i aros mewn addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd eu haddysg orfodol. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys tystiolaeth anecdotaidd ac ystadegau a oedd yn dangos cynnydd yn y cyfraddau cyfranogi. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cytuno bod unrhyw bolisi a oedd yn helpu i godi dyheadau pobl ifanc yn llwyddiant pwysig.

178. Dywedodd Frank Ciccotti:

> "We have had people returning to the sixth form who might not previously have done so, because they have engaged with the curriculum more as a result of the broader curriculum on offer. They have remained engaged with education; because they have had something relevant at key stage 4, they have come back to key stage 5 and have progressed to further and higher education from there."[88]

179. Er hynny, dywedodd y Gweinidog fod polisïau eraill wedi cael dylanwad, gan gynnwys  y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, er enghraifft.

180. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor rai pryderon fod y Mesur, yn anfwriadol, wedi arwain efallai at fwy o bobl ifanc yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa lle nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a hynny pan fyddant yn hŷn, sef yn 19 oed, yn hytrach na phan fyddant yn 16 oed. Dywedodd NTfW:

> "Whilst a reduction in NEET levels at 16 is welcomed by all parties, NTfW is concerned that rather than addressing the NEET issue, the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 may be inadvertently delaying and thus compounding the NEET issue at 19 plus. Our initial examination of Careers Wales Pupils destination data at years 11, 12 and 13 between 2005 and 2010, appears to show a trend in NEET at year 13 increasing slightly (from 5% to 7%) at the same time that NEET at Year 11 has decreased from 7% to 5%."[89]

181. Mewn ymateb i hyn, mae'r Gweinidog hefyd yn pryderu bod gormod o asiantaethau a sefydliadau yn rhan o'r broses o roi cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a bod gwasanaethau'n gorgyffwrdd.

---

[88] Cofnod y Trafodion [paragraff 156], 9 Tachwedd 2011, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[89] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan NTfW, CYP(4) LS12

182. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y dylai cymorth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn ifanc, ac y dylid dechrau cynnig y cymorth hwnnw yn y blynyddoedd cynnar.

183. Dywedodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wrth y Pwyllgor:

> "Er y bu gwelliant yng nghyfranogiad dynion, mae'r bwlch yn y cyfraddau aros ymlaen rhwng merched a dynion yn parhau i beri pryder ac mae'n anochel bod hyn [yn] cael effaith ar gynrychiolaeth gytbwys rhwng y rhywiau ym maes AU."[90]

---

[90] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*, Tystiolaeth ysgrifenedig gan CCAUC, CYP(4) LS20

## Penderfyniad pennaeth ysgol neu goleg i ddileu hawl dysgwr

184. Nid yw'r Pwyllgor wedi cael unrhyw dystiolaeth fod problemau wedi codi hyd yn hyn ynghylch hawl pennaeth ysgol neu goleg i benderfynu dileu hawl dysgwr i wneud cwrs.

## Atodiad A - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1305

**9 Tachwedd 2011**

| | |
|---|---|
| Kath Durbin | Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Pen-y-bont ar Ogwr |
| John Fabes | Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Caerdydd |
| John Gambles | Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Sir Ddinbych |
| Matt Morden | Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19 Sir Gaerfyrddin |
| Frank Ciccotti | Ysgol Penfro |
| Nigel Stacey | Ysgol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd |
| Phil Whitcombe | Ysgol Bryn Hafren, Bro Morgannwg |
| Dorian Williams | Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin |

**17 Tachwedd 2011**

| | |
|---|---|
| Simon Bracken | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Dr Philip Dixon | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru (ATL Cymru) |
| Rex Phillips | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Rebecca Williams | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| Ian Bosworth | Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru (UCU Cymru) |
| Lleu Williams | Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru (UCU Cymru) |

**23 Tachwedd 2011**

| | |
|---|---|
| Dr Chris Llewelyn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Karl Napieralla | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) |
| Ann Keane | Estyn |
| Meilyr Rowlands | Estyn |

**1 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| Iestyn Davies | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Rachel Searle | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) |
| Arwyn Watkins | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) |
| Steve Hole | Gyrfa Cymru |
| Joyce M'Caw | Gyrfa Cymru |

**7 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| Terry O'Marah | Llywodraethwyr Cymru |
| Hugh Pattrick | Llywodraethwyr Cymru |
| Ian Dickson | Coleg Glannau Dyfrdwy |
| John Graystone | ColegauCymru |
| Mark Jones | Coleg Penybont |

**12 Ionawr 2012**

| | |
|---|---|
| David Bryer | Urdd Gobaith Cymru |
| Rhun Dafydd | Ysgol Gyfun Bro Morgannwg |
| Greta Isaac | Ysgol Gyfun Bro Morgannwg |
| Nicole Broom | Llamau |
| Sarah Lee | Llamau |
| Jan Mead | Llamau |

**18 Ionawr 2012**

| | |
|---|---|
| Tony Leahy | Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| Bill Peaper | Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| Gareth Williams | Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer SgiliauAdeiladu |
| Sioned Williams | Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal a Datblygu |
| Eifion Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Arwyn Thomas | Cyngor Sir Ceredigion |

**26 Ionawr 2012**

| | |
|---|---|
| Leighton Andrews | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| Jeff Cuthbert | Y Dirprwy Weinidog Sgiliau |

## Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=2095&Opt=3

| Dyddiad | Sefydliad/Unigolyn | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| 9 Tachwedd 2011 | Rhwydweithiau 14-19 Cymru | CYP(4)-08-11(t1) |
| 9 Tachwedd 2011 | Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | CYP(4)-08-11(t2) |
| 9 Tachwedd 2011 | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymru (NAHT Cymru) | CYP(4)-08-11(t3) |
| 17 Tachwedd 2011 | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru (ATL Cymru) | CYP(4)-09-11(t1) |
| 17 Tachwedd 2011 | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | CYP(4)-09-11(t2) |
| 17 Tachwedd 2011 | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | CYP(4)-09-11(t3) |
| 17 Tachwedd 2011 | Yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) | CYP(4)-09-11(t4) |
| 23 Tachwedd 2011 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) | CYP(4)-10-11(t1) |
| 23 Tachwedd 2011 | Estyn | CYP(4)-10-11(t2) |
| 1 Rhagfyr 2011 | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) | CYP(4)-11-11(t2) |
| 1 Rhagfyr 2011 | Ffederasiwn Busnesau Bach | CYP(4)-11-11(t3) |
| 1 Rhagfyr 2011 | Gyrfa Cymru | CYP(4)-11-11(t4) |
| 7 Rhagfyr 2011 | Llywodraethwyr Cymru | CYP(4)-12-11(t1) |
| 7 Rhagfyr 2011 | ColegauCymru | CYP(4)-12-11(t2) |
| 18 Ionawr 2012 | Cynghorau Sgiliau Sector | CYP(4)-02-12(t1) |

| | | |
|---|---|---|
| 18 Ionawr 2012 | Cyngor Sir Ceredigion | CYP(4)-02-12(t2) |
| 18 Ionawr 2012 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) | CYP(4)-03-12(t6) |
| 26 Ionawr 2012 | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau | CYP(4)-03-12(t1) |
| 26 Ionawr 2012 | Addysg Uwch Cymru (AUC) | CYP(4)-03-12(t3) |

## Atodiad C – Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn i'r alwad am dystiolaeth. Gellir gweld pob ymateb yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2095

| | |
|---|---|
| CYP(4) LS01 | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru (NUT Cymru) |
| CYP(4) LS02 | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru (NDCS Cymru) |

## Atodiad D – Ymatebion i holiaduron

Llenwodd y bobl ifanc o'r ysgolion/grwpiau a ganlyn holiaduron ynghylch eu profiad o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Ysgol Aberaeron

Aelwyd yr Ynys, Ynys Môn

Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Coleg Caerdydd a'r Fro

Coleg Llandrillo

Coleg Menai

Coleg Powys, Y Drenewydd

Coleg Sir Gâr

Coleg Deeside

Ysgol Uwchradd y Fflint

Ysgol Gyfun Tre-gŵyr

Ysgol John Beddoes

Clwb Ieuenctid KPC, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Uwchradd Llandrindod

Coleg Merthyr Tudful

Ysgol Aberdaugleddau

Coleg Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Uwchradd y Rhyl

Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl

Clwb Ieuenctid Sandfields, Port Talbot

Ysgol Sant Cenydd, Caerffili

Ysgol Sant Cyres, Penarth

Y Coleg, Rhymni

Cymunedau yn Gyntaf Tregaron, Pontrhydygroes

Coleg Iâl

Ysgol Brynrefail

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgol Glan Clwyd

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi

Ysgol Gyfun Llangefni

Ysgol Syr Hugh Owen

Ysgol Tryfan

Coleg Ystrad Mynach

Ysgol y Creuddyn